# Diogelu Cyd-destunol




**1 Beth ydy o...**
Mae Diogelu Cyd-destunol yn ceisio adnabod ac ymateb I niwed a chamdriniaeth a berir I pobl ifanc **y tu allan** I'w cartref, nail ai gan oedolion neu gan bobl ifanc eraill

**2 Pam bod ots...**
Mae ymagweddau traddodiadol i amddiffyn plant / pobl ifanc rhag niwed wedi ffocysu ar y risg o drais a chamdriniaeth o'r tu mewn i'r cartref, ac nid ydynt wastad yn delio â'r amser y mae plant / pobl ifanc yn ei dreulio y tu allan i'r cartref.

**3 Pam bod ots...**
Wrth i blant symud o blentyndod cynnar ac i mewn i'r glasoed maent yn treulio mwy o amser yn cymdeithasu'n annibynnol oddi-wrth eu teuluoedd. Mae natur y perthnasoedd mae'r bobl ifanc yn eu ffurfio yn y lleoliadau hyn yn hysbysu i ba raddau maent yn dod ar draws amddiffyniad neu gamdriniaeth.

**4 Perthnasoedd Cyfoedion**
Mae perthnasoedd cyfoedion yn effeithio'n gynyddol yn ystod y glasoed. Os yw person ifanc yn ffurfio cyfeillgarwch mewn cyd-destunau a nodweddir gan drais ac / neu ymagweddau niweidiol bydd y perthnasoedd hyn yn wrthgymdeithasol ac yn anniogel.

**5 Beth yw'r risgiau...**
Mae ystod eang o risgiau posibl ble gall prif achos y niwed fod y tu allan i'r teulu. Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr, ond mae'n cynnwys: camdriniaeth cyfoed ar gyfoed; ecsploetiaeth a cham-drin ar-lein; episodau coll; cysylltiad mewn gangiau; radicaleiddio; masnachu a chaethwasiaeth fodern.

**6 Beth ddylem ni ei wneud...**
Mae ymagwedd o Ddiogelu Cyd-destunol yn anelu i amharu ar gyd-destunau all-deuluol niweidiol yn hytrach na symud pobl ifanc oddi-wrthynt. Anelai'r ymagwedd i adnabod y ffyrdd y gall gweithwyr proffesiynol, oedolion a phobl ifanc newid amgylchiadau cymdeithasol yr amgylchoedd ble mae'r cam-drin wedi digwydd.

**7 Beth ddylem ni ei wneud...**
Adnabod y ffyrdd ble gall pobl ifanc newid yr amodau cymdeithasol ble mae cam-drin wedi digwydd, ac annog hunan-gyfrifoldeb am wneud y penderfyniadau hyn. Ymgysylltu gydag unigolion a sectorau sydd â dylanwad ar gyd-destunau cymdeithasol, h.y. perchnogion siopau, plismona lleol, arweinyddion cymunedol, i wneud amgylcheddau'n fwy diogel.

Am rhagor o wybodaeth ewch at wefan Diogelu Cyd-Destunol

www.contextualsafeguarding.org.uk

BDORhCaF C&VRSAB

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board